ceca
Working for Infrastructure
Adeiladwaith yw'n Gwaith

Ydych chi erioed wedi meddwl am yrfa mewn Peirianneg Sifil yng Nghymru?

Mae cyfleoedd i bawb o fewn y diwydiant peirianneg sifil



ceca
Working for Infrastructure
Adeiladwaith yw'n Gwaith

Pwy ydym ni?

Mae Cymdeithas y Contractwyr Peirianneg Sifil (CECA) Cymru yn cynrychioli 60 o gwmnïau peirianneg sifil ledled Cymru, gyda throsiant blynyddol cyfunol o fwy na £1 biliwn ac yn cyflogi dros 6,000 o bobl.

Mae'r busnesau hyn yn chwarae rhan enfawr wrth gefnogi cymunedau ledled Cymru ac yn gwneud cyfraniad sylweddol at ffyniant economaidd ein cenedl. Mae ein haelodau hefyd ymhlith y darparwyr mwyaf o gyfleoedd hyfforddiant ac prentisiaethau ar hyd y wlad.

Mae Grwp Sylfaen CECA Cymru yn cynnwys chwech unigolyn ifanc o fusnesau contractwyr peirianneg sifil yng Nghymru sydd am geisio denu mwy o fobl i weithio yn y sector peirianneg sifil.

Beth ydi gweithio mewn peirianneg sifil?

Mae mwy i beirianneg sifil na hetiau diogelwch a bŵts mwdlyd. Mae'n cynnwys datrys problemau, gwaith tîm, arloesedd a chreadigrwydd.

Boed chi'n gweithio ar liniadur yn dylunio dinasoedd y dyfodol, yn arwain prosiectau mawr, neu'n adeiladu â'ch dwylo eich hun, mae lle i bawb ym myd adeiladu.

Newydd i'r diwydiant?

Dyma ganllaw syml gyda terminolegau a fedrwch clywed o fewn y diwydiant.

Prentis Dysgwr sy'n cael profiad ymarferol a hyfforddiant wrth ennill cyflog.

Peirianneg Sifil Dylunio ag adeiladu seilwaith hanfodol. O dwneli i ffermydd gwynt, i rheilffyrdd.

Cleient Sefydliad neu person sydd angen ac yn ariannu seilwaith.

Adeiladwaith Adeiladu, adnewyddu neu cynnal a chadw strwythurau fel tai, ffyrdd, pontydd a mwy.

Contractiwr Cwmni neu berson sy'n cael ei gyflogi i wneud gwaith adeiladu ar brosiect ar ran y cleient.

Gang Caiff y crefftau eu rhannu'n o fewn y "gang" ar y safle i gyflawni eu tasgau unigol, ac mae pob "gang" yn cael ei harwain gan oruchwyliwr.

Seilwaith Y systemau sydd eu hangen ar wlad i weithredu: ffyrdd, dŵr, egni a thrafnidiaeth.

Gweithredwr Mae gweithredwr safle yn defnyddio peiriannau a celfi i osod draeniau, adeiladu sylfeini ac adeiledd.

Peiriannau Mae cloddwyr, dympwyr a chraeniau i gyd yn fathau o beiriannau trwm. Maent yn beiriannau sydd angen hyfforddiant arbenigol i'w weithredu.

Rheolwr Prosiect Yr hwnnw sy'n gyfrifol am gynllunio a a chyflawni prosiect adeiladu.

Syrfëwr Meintiau Rhywun sy'n sy'n cyfrifo costau, mesuriadau a deunyddiau ar gyfer gwaith adeiladu.

Safle Y lle mae gwaith adaeiladu yn digwydd.

Cynaliadwyedd Adeiladu mewn ffordd gynaliadwy, wrth leihau gwastraff ac amddiffyn yr amgylchedd.

Crefftwr Gweithiwr medrus, megis plymwr, trydanwr, briciwr neu saer coed.

Sectorau allweddol o fewn y diwydiant



Ffeithiau Hwyl Peirianneg Sifil

ceca
Working for Infrastructure
Adeiladwaith yw'n Gwaith





Gall llafn tyrbin gwynt arferol fod dros 80 metr o hyd! I'w gludo, mae'n aml angen hebryngwyr yr heddlu a chau ffyrdd dros nos ar draws cymoedd a ffyrdd gwledig Cymru.






Enw'r craên mwyaf a ddefnyddiwyd yng Nghymru, yw "Goliath". Mae'n gallu codi llwythi'n pwyso dros 1200 tunnell - sy'n cyfateb i tua 200 o eliffantod!



Gall safle adeiladu prysur gynnal cannoedd o weithwyr, dwsinau o beiriannau, a miloedd o gwpanau o de - i gyd yn hanfodol i gwblhau'r gwaith!















Yn y byd peirianneg sifil, mae cydweithio yn dechrau ar y bwrdd lluniadu. Dyna lle mae prosiectau cadarn a thimau cryf yn cael eu hadeiladu.



Nid yn unig y mae arfordir Cymru'n hardd, ond mae'n dod yn bŵer i ynni gwyrdd, gan fanteisio ar wynt, tonnau a llanw i bweru dyfodol cynaliadwy.



Gall bwced cloddiwr godi digon o bridd i lenwi pwll padlo bach.

Beth ydym yn ei wneud? Engreifftiau Seilwaith yng Nghymru

PROSIECT YNNI LLANW MORLAIS



Nodweddion allweddol y prosiect:

- Is-orsaf gyda naw bae, trawsnewidyddion, ac adeiladau.
- Systemau draenio cynaliadwy gyda phwll a system rheoli llif.
- Llwybr cebl tanddaearol 6.4km o hyd gyda cheblau foltedd uchel
- Drilio Cyfeiriadol Llorweddol trwy graig ac o dan afonydd
- Cysylltiadau â'r Grid Cenedlaethol

FFERM WYNT LLYNCELYN



Nodweddion allweddol y prosiect:

- **Ffyrdd mynediad:** Adeiladwyd 2.5 cilomedr o lwybrau mynediad newydd i gyrraedd y safle anghysbell ar ochr y bryn.
- **Gosod Tyrbinau:** Cyflwynwyd a gosodwyd dau dyrbin Vensys V115. Mae gan rhain uchder canolbwynt o 67 metr – tua mor dal ag adeilad 20 llawr.
- **Dosbarthiadau Trwm:** Roedd angen cynllunio arbennig i symud rhannau enfawr y tyrbin, gan gynnwys llafnau 57.5 metr o hyd a chraeniau mawr.
- **Ymglymiad Cymunedol:** Roedd y prosiect yn cynnwys rhaglen allgymorth addysgol a oedd yn cynnwys dros 100 o ddisgyblion ysgol gynradd leol.

GRANGETOWN WERDDACH



Nodweddion allweddol y prosiect:

- **Draenio Eco-gyfeillgar:** Gosodwyd systemau draenio cynaliadwy newydd i gasglu a thrin dŵr glaw yn naturiol.
- **Gerddi Glaw:** Adeiladwyd gerddi a gynlluniwyd yn arbennig i amsugno dŵr glaw ac ychwanegu mannau gwyrdd i'r ardal.
- **Gwelliannau Ffyrdd:** Ail-wynebwyd ac ailadeiladwyd ffyrdd fel rhan o'r gwaith, gan wella golwg a diogelwch y strydoedd.

LLIFOGYDD RHYDAMAN



Nodweddion allweddol y prosiect:

- Porthladdoedd Arbenigol i Reoli Llifogydd
- Waliau llifogydd concrit wedi'u hatgyfnerthu mewn 9 lleoliad
- Buniau llifogydd pridd
- Gwelliant mewn llwybrau pysgod
- Uwchraddio a hailsefydlu gorsafoedd mesur a stondinau
- Plannu tirlun
- Gosod 2 basys nawod newydd
- Manteision i'r gymuned gyda Choleg Sir Gâr

Rhai prosiectau arbennig gan ein haelodau






Mwy o ffilmiau o waith arbennig gan ein haelodau

Rolau O Fewn y Diwydiant

Dyma rai o'r nifer o rolau sydd ar gael yn y diwydiant peirianneg sifil yng Nghymru. O arolygu a rheoli prosiectau, i ddylunio neu ddreifio peiriannau, mae pob rôl yn chwarae rhan bwysig wrth wireddu prosiectau. Mae pob rôl yn cynnig cyfleoedd i feithrin sgiliau, gweithio gyda thîm, a datblygu gyrfa gwerth chweil.



Sganiwch y cod QR i gymeryd pos byr!

Llwybrau Gyrfa

Peiriannwr Safle

- Peiriannwr Safle
- Peiriannwr Prosiect
- Is Asiant
- Rheolwr Safle
- Rheolwr Prosiect
- Rheolwr Contractiau
- Cyfarwyddwr Adeiladu
- Cyfarwyddwr Gweithredol

Uwch Oruchwyliwr

- Gweithiwr Cyffredinol
- Gweithiwr Peiriannau
- Arweinydd "Gang"
- Goruchwyliwr
- Uwch Oruchwyliwr
- Rheolwr gwaith
- Uwch Rheolwr gwaith

Syrfëwr Meintiau (SM)

Prifysgol

- 3 Mlynedd
- 5 Mlynedd

- Aprentis SM
- SM Cymorthwyol
- SM Graddedig
- Syrfëwr meintiau
- SM Prosiect
- Uwch SM
- Rheolwr Masnachol
- Cyfarwyddwr masnachol

Faint allech chi ei ennill?

Mae ffigurau cyflog yn seiliedig ar oddeutu pedair blynedd o brofiad gyda gradd berthnasol (Glassdoor, Hydref 2025). Er bod rolau mewn dinasoedd fel Caerdydd yn aml yn talu mwy, mae digon o gyfleoedd gwych i ennill arian ledled Cymru diolch i ddatblygiadau parhaus.

Cyflogau Cyfartalog

- Llafurwr Cyffredinol £24,000
- Gweithredwr safle £29,000
- Gweithredwr peiriannau £34,000
- Briciwr £40,000
- Peiriannydd sifil ar safle £40,000
- Syrfëwr meintiau £43,000
- Rheolwr safle £50,000
- Rheolwr prosiect £60,000
- Rheolwr masnachol £70,000

Cyflogau Cyfartalog Aprentis/Graddedigion

- Aprentis Gweithredwr Safle £17,000
- Dylunydd Graddedig £24,000
- Rheolwr Safle Aprentis/Graddedig £32,000
- Gweithredwr Peiriannau Aprentis £22,000
- Syrfëwr Meintiau Aprentis/Graddedig £25,000
- Peiriannydd Sifil Aprentis/Graddedig £25,000



Peiriannydd Sifil

Enw Callum Maddocks
Lleoliad De Cymru

Fel peiriannydd safle, rwy'n gyfrifol am sicrhau bod yr hyn a adeiladwyd ar y safle'n cydymffurfio'n agos â'r dyluniad ac yn cael ei gyflwyno i'r safon uchaf. Mae rheoli ansawdd y gwaith a gyflwynwn yn rôl hynod bwysig mewn perianneg sifil.

"Cyn ymuno â Knights Brown fel peiriannydd sifil graddedig, cymerais flwyddyn allan o'm hastudiaethau a chynhaliais Flwyddyn yn y Diwydiant gyda Knights Brown. Roeddwn yn gweithio ar Gynllun Lleddfu Llifogydd Stryd y Graig yn Glynneath, penderfynnais dilyn gyrfa mewn perianneg sifil!"





Peiriannydd Sifil

Enw Dylan Rigby
Lleoliad De Cymru

Pan oeddwn yn gadael ysgol, nes i i erioed feddwl y buaswn yn ran o rol mor hanfodol ar brosiectau arwyddocaol mor ifanc! !

Mae mynychu a manteisio ar ddigwyddiadau gyrfaoedd wedi fy mharatoi i weithio ar brosiectau mawr a chyffrous, fel cyfleusterau ailgylchu a rheoli gwastraff newydd sbon ar gyfer Cyngor Sir Benfro.



Cyfweliad Gyda Peiriannydd Sifil Safle

Beth wyt ti'n ei wneud?

"Dwi'n sicrhau bod gwaith ar y safle yn cael ei gyflawni'n ddiogel, yn gywir ac i ansawdd uchel."

Beth ydych chi'n ei hoffi fwyaf am eich rôl fel peiriannydd safle?

"Gweithio mewn amgylchedd cyflym gyda digon o broblemau cyffrous i'w ddatrys. Rwyf hefyd wrth fy modd bod fy rôl yn caniatáu i mi dreulio amser yn yr awyr agored sy'n fantais fawr drwy gydol yr hâf. Mae safleoedd adeiladu yn llawn bobl hynod wybodus, sy'n creu amgylchedd ddelfrydol i ddysgu, sydd hefyd yn fantais anhygoel."


Sut olwg sydd ar eich llwybr gyrfa?

"Fy nod yw gweithio fy ffordd i fewn i reoli safleoedd a phrosiectau. Rwy'n mwynhau rheoli timau a gweithio dan bwysau ac yn teimlo bod hyn yn addas i'm sgiliau. Mae'n bwysig deall bod mwy nag un llwybr i'w ddilyn bob amser!."

Pa gyngor fyddech chi'n ei roi i rywun sy'n ystyried gyrfa mewn Peirianneg Sifil?

"Ewch amdani! - mae gymaint o lwybrau y gallwch chi ddilyn yn y diwydiant ac mae gweithio yng Nghymru yn cynnig digon o gyfleoedd."

Gwyliwch ein fideo ar Youtube!



Cyfweliad Gyda Syrfëwr Meintiau



Syrfëwr Meintiau

Enw Gruff Roberts
Lleoliad De Cymru

Rwy'n rheoli ochr ariannol y prosiect , gan sicrhau bod pob cynllun yn cael ei gyflawni'n effeithlon, yn gost-effeithiol, ac yn bwysicaf oll, o fewn y gyllideb!

Un o fanteision mwyaf gweithio fel Syrfëwr Meintiau yw'r amrywiaeth, mae pob diwrnod yn dod â sefyllfaoedd newydd i'w llywio a phroblemau i'w ddatrys. Pan rydy'ch yn buddsoddi amser a gwaith caled i brosiect, ac yn y pen draw mae popeth yn dod at ei gilydd, mae'r teimlad o gyflawniad yn anhygoel.







A allaf astudio yn y Brifysgol i ddod yn Syrfëwr Meintiau?

Enw Rebeca Jones
Lleoliad Gogledd Cymru

Ar ôl gorffen fy NGHaU , fe astudiais lefel A mewn Hanes, Daearyddiaeth a Bioleg yn y 6ed dosbarth. Ar y pryd, doeddwn i ddim yn siwr pa lwybr gyfra oeddwn eisiau ei ddilyn, ac roeddwn i'n teimlo llawer o bwysau i wneud penderfyniad.

Fe wnaeth profiad gwaith gyda Jones Bros allugoi i mi archwilio amrywiaeth o rolau o fewn y cwmni, gan danio fy niddordeb yn y diwydiant adeiladu a'm harwain i ddilyn gradd mewn 'Quantity Surveying'.

A oes llwybrau eraill ar gael i gymhwyso fel Syrfëwr Meintiau?



Enw Jac Beynon
Lleoliad Gorllewin Cymru

Pan oeddwn yn yr ysgol, roeddwn yn cydnabod nad oedd mynd i'r brifysgol llawn amser y llwybr iawn i mi. Roeddwn eisiau cyfuno dysgu, cael profiad go iawn, ac ennill cyflog. Dyna pryd y ddarganfyddais gyrfa fel Syrfwr Meintiau. Roedd yn sefyll allan fel gyrfa boddhaol, sy'n cyfuno datrys problemau, gwaith tîm, a chyfrifoldeb.

Wrth addysgu drwy brentisiaeth gallwch:

- Ennill gradd prifysgol tra byddwch yn gweithio.
- Osgoi dyled myfyrwyr - gan fod eich cyflogwr yn talu'r costau.
- Cael blynyddoedd o brofiad ar y safle, gan adeiladu sgiliau na allwch eu dysgu yn y dosbarth.

Diwrnod mewn bywyd



Enw Rhys Jones
Lleoliad De Cymru

Rwy'n cynorthwyo gyda rheoli costau a chontractau ar brosiectau. Mae pob diwrnod yn wahanol, ac mae'r ddelwedd isod yn tynnu sylw at yr ystod o dasgau rwy'n ymwneud â nhw.

Gwirio e-byst
Ymweld â'r safle i fesur y gwaith a gwblhawyd
Paratoi ceisiadau i'r cleient yn seiliedig ar fesuriad safle
Adolygu ceisiadau is-gontractwyr
Mynychu cyfarfodydd cynnydd yn wythnosol

Cyfweliad Gyda Uwch Oruchwyliwr

Uwch Oruchwyliwr - Gyfrifol am reoli'r safle a defnyddio ei arbenigedd a'i brofiad i gryfhau'r cysylltiad rhwng rheolwyr a'r tîm ar y safle.

Beth wyt ti'n ei wneud?

" Rwy'n arwain yr adeiladu ar y safle ac yn rheoli'r briffiau dyddiol a'r dyraniad tasgau. Rwy'n cynorthwyo'r Asiant Safle i oruchwylio gweithrediadau'r prosiect, gan sicrhau bod gofynion iechyd a diogelwch yn cael eu fodloni a bod safonau uchel yn cael eu cynnal.

Rwy'n cydlynu'r offer a'r gwaith cynnal a chadw, yn gweithredu fel cyswllt rhwng y crefftau, ac yn hyrwyddo diwylliant gwaith diogel. Rwy'n cefnogi cynllunio, cyfathrebu a chadw cofnodion i sicrhau llwyddiant y prosiect."

Pam wyt ti'n mwynhau dy rôl?

" Y rhan gorau o'r swydd i mi yw arwain y tîm ar y safle a gweld y cynnydd dyddiol. Rwy'n gwerthfawrogi'r cyfle i ddatrys problemau, cefnogi datblygiad y gweithlu, ac i sicrhau bod y gwaith yn cael ei gyflawni'n ddiogel ac yn effeithlon.

Ar ôl buddsoddi gymaint o amser ac egni, mae gweld prosiect yn cwblhau'n llwyddiannus yn hynod o fuddiol."

Pa fath o brosiectau wyt ti wedi gweithio arnynt?

Dros y 20 mlynedd diwethaf, rwyf wedi bod yn ffodus i gyfrannu at amrywiaeth o brosiectau peirianneg sifil ledled Cymru, pob un yn cynnig heriau unigryw a chyfleoedd i wneud gwahaniaeth cadarnhaol i gymunedau lleol.

Enghreifftiau o'r prosiectau rwyf wedi bod yn rhan ohonynt yw:

- **Ffermydd gwynt**
- **Amddiffynfeydd llifogydd**
- **Llwybrau beicio a cherdded**
- **Cynlluniau storio ynni batri**
- **Adeiladu ffyrdd a seilwaith newydd**
- **Pontydd**
- **Twneli**
- **Prosiectau dymchwel**



Y Cynnydd yn Fy Nghyfrifoldeb Gyrfaol fel Safle Uwch Oruchwyliwr



Mae gan bawb uchelgeisiau unigryw, ac os nad yw Prifysgol na Brentisiaeth y llwybr cywir i chi, os oes gennych ddiddordeb mewn gweithio mewn amgylchedd ymarferol, yn syth ar ôl cwblhau'r ysgol (fel arfer, mae'n rhaid i chi fod yn 18 oed neu'n hŷn), gallai'r swydd hon fod yn berffaith.

Fel y dangosir isod, mae gweithwyr yn elwa o gyfleoedd cryf i ddatblygu eu gyrfa.

" Doedd gen i ddim syniad clir ynglyn a fy uchelgeisiau pan ddechreuais weithio yn y maes adeiladu. Dechreuais fel gweithredwr craen, gan fod gweithio'n uchel yn yr awyr yn fy llenwi â chyffro. Ymhen amser, daeth yn amlwg fy mod am ganolbwyntio ar waith mwy ymarferol, felly dewisais i ganolbwyntio ar brosiectau arbenigol yn ymwneud â thwneli a gwaith tanddaearol.

Oherwydd fy mhrofiad helaeth ar safleoedd adeiladu, roedd gen i lawer o brofiad o weithio ar wahanol brosiectau ac o ymgymryd â gwahanol rolau yn rheolaidd. Dros amser, datblygais ystod eang o sgiliau a phrofiadau, a brofodd yn hynod werthfawr wrth imi symud ymlaen i swydd uwch gyda mwy o gyfrifoldebau. Mae fy rôl bresennol yn seiliedig ar y profiad amrywiol hwn, ac rwy'n falch o'r gyrfa broffesiynol lwyddiannus rwyf wedi'i datblygu hyd yma."

Tîm CECA

ceca
Working for Infrastructure
Adeiladwaith yw'n Gwaith

Mae Grwp Sylfaen CECA Cymru yn cynnwys chwech unigolyn ifanc o fusnesau contractwyr peirianneg sifil yng Nghymru sydd am geisio denu mwy o fobl i weithio yn y sector peirianneg sifil.

Dilynwch ni ar y cyfryngau cymdeithasol

i gael y wybodaeth ddiweddaraf am gyfleoedd a digwyddiadau!

